

Bregus?

Adnodd Addysg



Yr arddangosfa

Arddangosfa am gerameg yw *Bregus*?. Gwrthrychau wedi'u gwneud o glai ac yna'u tanio yw cerameg. Gan amlaf, rydyn ni'n meddwl amdanynt fel gwrthrychau bregus, ond nod yr arddangosfa hon yw herio'r syniad hwnnw a rhoi blas ar y mathau gwahanol o gerameg sy'n cael eu creu heddiw.

Mae'r arddangosfa'n cynnwys gweithiau o gasgliad yr Amgueddfa yn ogystal â gwrthrychau ar fenthyg a chomisiynau arbennig gan artistiaid cyfoes.

Nod yr adnodd addysg hwn yw helpu athrawon ac addysgwyr. Mae'n cynnwys cymorth i gynllunio ymweliad a chrwydro'r arddangosfa, ac mae'n awgrymu gweithgareddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Er ei fod wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a 3, mae'n hawdd ei addasu ar gyfer myfyrwyr iau neu hŷn.

Cyn ymweld â'r arddangosfa

Trafodwch

Beth mae 'bregus' yn ei olygu i chi? Oes gennych chi rywbeth bregus gartref?

Ydych chi erioed wedi creu rhywbeth o glai? Ydych chi'n cofio sut deimlad oedd hynny? Beth wnaethoch chi ei greu? Oedd e'n fregus? Wnaethoch chi ddefnyddio olwyn neu ei greu â llaw?

Oes gennych chi hoff eitem gerameg gartref? Efallai mai'ch hoff gwpan yw e, neu addurn bach clai. Ydy'ch hoff wrthrych cerameg yn eich atgoffa chi o rywbeth neu rywun arbennig? Oes gan y gwrthrych stori arbennig?

Yn yr arddangosfa


Mae pob math o weithiau gwych yn yr arddangosfa, a chymaint i'w drafod. Mae cwestiynau'n seiliedig ar yr arddangosfa yn oriel 21 a 22, a gallwch eu defnyddio i sbarduno trafodaeth. Neu gallwch drafod lliw, patrwm, siâp, gwedd a deunyddiau.



Faint o siapiau gwahanol welwch chi?



Pa fath o batrymau a lliwiau sydd yma?



Edrychwch ar yr holl wahanol fathau o wead.

Dewiswch ddarn o waith rydych chi'n ei fwynhau neu sy'n taro tant, i'w drafod gyda'ch grŵp. Rydyn ni wedi dewis rhai o'n ffefrynnau ni i'w trafod yn fanylach.

Keith Harrison – *Mud* 2015

Oeddech chi'n disgwyl gweld darn fel hwn mewn arddangosfa gerameg? Mae mor fawr! A sgleiniog! Gallwch chwarae recordiau arno hyd yn oed!

Mae Keith yn gweithio gyda cherameg ond yn defnyddio sain a pherfformiad hefyd. Mae'n ymddiddori yn y ffordd y gall clai fod yn hylif neu'n solid, yn ddeunydd crai neu wedi'i danio, ac mae arbrofi'n rhan ganolog o'i waith. A dyw'r gwaith ddim yn gorffen wrth iddo gyrraedd yr oriel chwaith – mae croeso i'r ymwelydd gymryd rhan, sy'n golygu y gallai'r gwaith celf newid yn sgil hyn, gall hollti neu dorri'n ddarnau hyd yn oed. Beth am chwarae record? Neu os oes gennych chi recordiau gartref, dewch â nhw i'w chwarae rywbyrd eto.



Beth sy'n dod i'r meddwl wrth i chi edrych ar waith Keith Harrison? Adeiladau a thyllau o bosib? Efallai bod y seinyddion yn eich atgoffa chi o gigs neu gyngherddau cerddoriaeth.

Claire Twomey – *Ymwybod/Cydwybod* 2015

Mae Claire Twomey yn creu gosodiadau cerameg; sy'n golygu gwaith wedi'i greu'n unswydd i ffitio mewn mannau gwahanol, ac sy'n newid lle bynnag y caiff ei arddangos. Ar gyfer *Bregus?* mae Claire yn dangos *Ymwybod/Cydwybod* a arddangosodd yn wreiddiol yn 2001. Mae wedi'i wneud o dsieni asgwrn sy'n ddeunydd gwerthfawr y byddech yn ei drin yn ofalus iawn fel arfer. Fan hyn, fodd bynnag, mae'r artist yn gwahodd ymwelwyr i gerdded dros y gwaith, i fod yn rhan o'r darn a bod yn gyfrifol am ei ddinistrio.

Oeddech chi'n meddwl y byddech chi'n cael torri rhywbeth yn yr arddangosfa heddiw? Cerdded arno a chlywed sŵn cracio braf dan eich traed? Sut deimlad yw cerdded ar ddarn o waith celf? Sut ydych chi'n ymateb wrth helpu i'w chwalu?

Beth yw ystyr y teitl hwn? Beth mae'r geiriau hyn yn eu golygu i chi? Pe baech chi'n gorfod meddwl am deitl arall, beth fyddai'ch awgrym chi?

Phoebe Cummings – *Golygfeydd ar gyfer Hanes Addurn yn y Dyfodol* 2015

Fel Claire Twomey, creu gosodiadau sy'n apelio fwyaf at Phoebe Cummings. Mae'n defnyddio clai crai a fydd yn ymddatod dros amser, ac mae ei gwaith yn cynnwys elfen o ddistryw a dadfeiliad hefyd. Mae Phoebe wedi creu'r gwaith hwn yn arbennig ar gyfer yr arddangosfa hon ac wedi creu byd ar ffurf golygfeydd bach a thirweddau amgen, sy'n ystyried y berthynas rhwng graddfa ac amser a hefyd sut gall clai adrodd stori. Mae Phoebe wedi ymchwilio i'r casgliadau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac wedi cael ei hysbrydoli gan lawer o'n gwrthrychau diddorol, fel y canwyllbrennau cerameg, y sbesimenau botaneg, y modelau a'r ffosilau.



'Nôl yn y dosbarth

Dyfeisiwch dirwedd hudolus fel y gwnaeth **Phoebe Cummings**! Gallech ei rhoi mewn blwch cardfwrdd hyd yn oed. Pa fath o rywogaethau fyddai'n byw a bod yn eich tirwedd amgen? A fyddai'n debyg i olygfa ffuglen wyddonol? A fydd yn cynnwys ffosilau a sbesimenau botanegol?

Yn ogystal â chreu tirwedd o glai a deunyddiau eraill, gallech ysgrifennu stori fer amdani. Pa fath o olygfa yw hi? Ai golygfa o'r gorffennol, y presennol neu'r dyfodol yw hi?

Betty Woodman – *Diptych: Y Balconi* 2007

Mae gwaith Betty Woodman yn wahanol iawn i'r darnau eraill yn yr arddangosfa – mae'n debyg iawn i baentiad gydag olion brwsio rhydd braf. Artist o America yw Betty, sydd wedi bod yn gweithio gyda chlai ers y 1950au, ac mae'n chwarae gyda'r elfennau dau ddimensiwn a thri dimensiwn ac yn eu cydblethu.

Diptych: Y Balconi yw teitl y darn. Welwch chi'r balconi? Beth arall allwch chi ei weld? Patrymau a lliwiau gwahanol, neu flodau efallai? Mae tu blaen y gwaith yn edrych yn fflat fel paentiad, ond os edrychwch arno o'r tu ôl mae'n fwy fel rhywbeth tri dimensiwn.

Mae paentiad gan Gillian Ayres ger gwaith Betty Woodman. Beth yw'r cysylltiad rhyngddyn nhw?



'Nôl yn y dosbarth

Peintiwch luniau hyfryd wedi'u hysbrydoli gan waith **Betty Woodman** – arbrofwch gyda siapiau 2D a ffurfiau 3D, defnyddiwch frwshys mawr a lliwiau llachar.

Edmund de Waal – *Wal Borslen* 2005 a 2007

Mae gan Edmund de Waal ddiddordeb mewn casglu a chasgliadau, sut maen nhw'n cael eu rhoi at ei gilydd a sut y cânt eu harddangos. Oherwydd hyn, mae ei waith yn gweddu'n berffaith i amgueddfeydd a'r modd maen nhw'n gweithio, ac mae'r darn hwn – **Wal Borslen** – yn rhan o gasgliadau parhaol yr Amgueddfa. Mae ganddo ddiddordeb mawr yn y modd mae gwrthrychau'n gallu'ch atgoffa chi o bethau gwahanol, sut maen nhw'n cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, ac yn gartref i atgofion bron iawn.

Meddylwch am eich hoff wrthrychau sydd gennych gartref. Pam maen nhw mor bwysig i chi – ydych chi'n hoffi'r gwrthrych ei hun, neu'r hanes y tu ôl iddo? Efallai bod rhywun annwyl iawn i chi wedi rhoi'r gwrthrych i chi, neu ei fod yn eich atgoffa o rywun neu rywle arbennig.




'Nôl yn y dosbarth

Crëwch eich arddangosfa eich hun yn yr ystafell ddosbarth. Gall fod yn arddangosfa o bethau rydych chi wedi'u creu, neu arddangosfa o wrthrychau gwahanol o'r un lliw i gyd. Ydy'r gwrthrych yn ddiddorol ar ei ben ei hun neu'n fwy diddorol mewn arddangosfa o lawer o bethau eraill?

Lowri Davies – *Casglu* 2015

Artist o Gymru yw Lowri Davies, sy'n creu gwaith cerameg hardd sy'n cynnwys llinoluniau cain. Mae darluniau wedi'u hysbrydoli gan ei magwraeth, hanes ei theulu ac atgofion o'i phlentyndod yn ganolog i'w gwaith yn aml. Ar gyfer yr arddangosfa hon mae Lowri wedi creu lithoffanau, sef gwrthrychau porslen tenau iawn a oedd yn boblogaidd yng nghanol yr

1800au. Mae'r llun naill wedi'i ysgythru neu ei fowldio ar y porslen, ac mae angen eu goleuo o'r tu ôl er mwyn eu gweld yn iawn.



'Nôl yn yr ystafell ddosbarth

Gwnewch llinuniau neu brintiau mono (mae mwy o awgrymiadau am brintio mono isod) am eich hunaniaeth, fel y mae **Lowri Davies** yn ei wneud. Allwch chi adrodd hanes eich teulu trwy'r darluniau hyn? Pan fydd pobl yn edrych arnyn nhw, fyddan nhw'n gallu dweud o ble ydych chi a'ch teulu'n hanu?

Ffigyrau Swydd Stafford – cynhyrchwyr anhysbys, tua 1840-1900

Roedd ffigyrau Swydd Stafford, fel y rhai yn arddangosfa *Bregus?* yn hynod boblogaidd yn ystod Oes Fictoria a byddai llawer o bobl ar y pryd yn addurno'u cartrefi â nhw. Mae ganddyn nhw 'gefnau gwastad', ac roeddynt yn cael eu creu trwy wasgu clai mewn mowldiau a'u peintio wedyn. Cafodd pob math o ffigyrau Swydd Stafford gwahanol eu creu yn ogystal â llawer o ffigyrau anifeiliaid gwahanol (llewod a chŵn oedd y mwyaf poblogaidd!). Os oedd yna ryw ddigwyddiad arbennig, byddai ffigwr Swydd Stafford yn cael ei greu i gofnodi hynny'n aml, fel un o'r Frenhines Fictoria i ddathlu achlysur ei choroni ym 1837. Crëwyd ffigyrau o enwogion hanesyddol hefyd, fel Shakespeare neu Rob Roy a rhai o bobl flaenllaw'r oes, fel Abraham Lincoln, Christmas Evans, a hyd yn oed Maria a Frederic Manning a gafodd eu crogi am lofruddiaeth ym 1849.



Pa ffigyrau welwch chi yma? Am beth oedden nhw'n enwog? Beth am greu stori amdanyn nhw a gweld pa mor gywir oeddech chi ar ôl dychwelyd i'r ysgol? Ydych chi wedi gweld ffigyrau tebyg o'r blaen?

'Nôl yn y dosbarth

Roedd **Ffigyrau Swydd Stafford** yn aml yn seiliedig ar enwogion y dydd. Gallech chi greu eich fersiynau cyfoes o bobl enwog rydych chi'n eu hedmygu heddiw. Defnyddiwch glai neu gwnewch gollage ohonyn nhw.

Syniadau eraill ar gyfer yr ystafell ddosbarth

Beth oedd eich barn chi am yr arddangosfa? A oedd yn debyg i'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl? P'un oedd eich hoff ddarn? Oedd y darnau i gyd yn fregus? Oeddech chi'n disgwyl clywed cerddoriaeth neu'r cyfle i gerdded ar draws teils cerameg?

Dyma ambell syniad am bethau celfyddydol i'w gwneud yn yr ystafell ddosbarth.

Prynwch fagiau o glai awyrsychu neu 'fimo', neu gwnewch eich toes chwarae eich hun (rysâit isod). Efallai'ch bod yn ddigon ffodus o fod ag odyd yn yr ysgol, os felly, gallech brynu mathau gwahanol o glai a thanio'ch gweithiau.

Creu powlen pinsio. Gwnewch belen o glai yn eich llaw a rhowch eich bawd yn y canol i greu pant. Yna, trowch y clai yn eich llaw gan wasgu'r ymylon nes bod gennych chi siâp powlen! Pe bai pob aelod o'r dosbarth yn creu powlen, gallech arddangos y cyfan gyda'i gilydd fel gosodiad celf. Edrychwch ar rai o osodiadau celf **Claire Twomey** am ysbrydoliaeth - mae wedi gwneud rhai gan ddefnyddio adar neu flodau cerameg bach iawn.

I wneud **toes chwarae** cymysgwch 1 cwpan o flawd, ½ cwpan o halen, 1 llwy fwrdd o hufen tartar, 1 llwy fwrdd o olew llysiau, yna ychwanegwch 1 cwpan o ddŵr berw a'i droi nes bod y cyfan wedi cymysgu'n drylwyr. Gallech hefyd ychwanegu lliwiad bwyd, cyfflasyn neu gliter.

Sut i wneud **monoprint** syml

- Bydd angen y canlyno arnoch: inciau, rholiwr, papur, pensil, haen o wydr neu fetel neu rywbeth tebyg (mae mat bwrdd gwydr yn syniad da).
- Rhowch ryw faint o inc ar y gwydr a'i rollo'n denau
- Rhowch ddarn o bapur ar y top yn ysgafn a pheidiwch â gafeael yn unrhyw ran arall o'r papur heblaw'r ochrau (gan y bydd unrhyw olion cyffwrdd yn dangos!)
- Tynnwch lun ar y cefn
- Codwch eich papur – dylai bod gennych ddarlun go chwith.

Gallwch hefyd ddargopïo lluniau, neu beintio'n uniongyrchol ar y gwyr a phrintio oddi arno wedyn. Ar ôl i chi feistrolï'r hanfodion, ewch ar-lein i chwilio am ddulliau gwahanol o ddefnyddio monoprïnt - fel ei gymysgu â chollage neu brïntio â phlu, tynnu llun ar sbwng crefft a phrintio'n defnyddio hwnnw wedyn. Mae'n ffordd wych o ddefnyddio'r patrymau a'r cynlluniau sydd i'w gweld yn arddangosfa *Bregus?*.

#hoffbethbregus

Cofiwch ymuno â ni a chyfrannu at yr hwyl ar Twitter ac Instagram! Tynnwch lun ohonoch chi'ch hun gyda'ch hoff beth bregus - gall fod yn gerameg neu'n rhywbeth arall! Ysgrifennwch frawddeg neu ddwy i ddweud pam rydych chi mor hoffi ohono, a'i rannu ar Twitter neu Instagram gan ddefnyddio'r hashnodau #hoffbethbregus a #BregusCaerdydd.

Adnoddau eraill

Efallai y bydd myfyrwyr hÿn (neu chi'ch hun os am ragor o wybodaeth gefndir) am wylïo rhai o'r ffilmiau canlynol ar YouTube. Hefyd, mynnwch gopi o *Chwalad: Golwg wahanol ar Bregus?* a luniwyd gan Fforwm Ieuenctid Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Mae **Edmund de Waal** wedi ysgrifennu llyfr am ei deulu a'i waith casglu o'r enw **The Hare with the Amber Eyes** sy'n cynnwys cefndir diddorol am ei fywyd a'i waith.

Ffilmiau

Phoebe Cummings

www.youtube.com/watch?v=lydgiyyRVXg

Keith Harrison

www.youtube.com/watch?v=sLcsxbuM0LQ

Lowri Davies

www.youtube.com/watch?v=hrfP_tZGmGY

David Cushway

www.youtube.com/watch?v=xFa7GFwldqs